

## **CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD YN YSGOL LLANDDOGED NOS LUN CHWFROR 28ain 2022**

### **PRESENNOL**

Cyng. Arwel L. Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. Eifion Williams, , Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

### **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Anwen Jones, Cyng. Dylan Jones, Cyng Austin Roberts

### **CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 17eg o Ionawr, 2022.

### **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

- 1) Cafwyd gwybodaeth gan y sir fod y bont yn Mhont y Garth, Maen wedi cae ei thrwsio.
- 2) Derbyniwyd lythyr gan Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r pryder am nifer o ddamweiniau ar y ffordd A470 ar y tro wrth 'First Cottage' Maenan ac yn cadarnhau y byddent yn monitor y sefyllfa gyda'r Heddlu.

### **CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

- 1) Cais rhif cyfeirnod 0/49418 - Newid denfydd adeilad stiwdio presennol i bwrpas talu gwesteion/ymwelwyr— 1 Tan Lan, Llanrwst Road, Maenan.
- 2) Cais rhif cyfeirnod 0/49394 - Newid defnydd o gyn gapel i adeilad preswyl, i greu arwybedd llawr ychwanegol ar gyfer yr annedd sy'n bodoli(Ty Capel Soar) a gwaith addasu ac estyniadau cysylltiedig – Capel Soar Rhiw Dafnau Isaf Maenan.
- 3) Cais rhif 0/49390 – Adeiladu adeilad ciwbicl gwartheg delltlog a'r holl waith cysylltiedig – Bryn Morfydd Mawr, Ffordd Efail Uchaf, Llanddaged.

Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau uchod.

### **Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb am y flwyddyn 2022 yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwronelddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y cyfriflen banc yn ol yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhethdod yn codi o'r gyllideb.

### **CYNNAL A CHADW**

- 1) Arwydd 20myw wedi dod i lawr ar Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddaged.
- 2) Twll dwfn yn y ffordd wrth Pen y Dyffryn, Ffordd Bryn Saith, Llanddaged.
- 3) Angen 'Sweeper' i fyny allt yr Abbey at Ty'r Ysgol Maenan.
- 4) Clawdd perchennog preswyl Troed y Rhiw, Ffordd Trwyn Swch, Llanddaged yn gwyro allan I'r ffordd ac annodd i gerbydau weld yn glir a'r cyhoedd i gerdded ar y palmant.
- 5) Twll wedi sigo yn y ffordd wrth Rhiw Dafnau, Maenan.
- 6) Twll yn y ffordd wrth Cae Chwarae Maenan wrth ymyl y stepiau i fynediad i'r parc.
- 7) Arwydd 'Dim Cerbydau Trwm' wedi dod lawr unwaith eto wrth groesffordd wrth Pen y Bryn, Ffordd Efail Uchaf, Llanddaged.
- 8) Cais i gael symud yr arwydd 'Dim Cerbydau Trwm' wrth Ty'r Ysgol Maenan o un ochr i'r ffordd i'r ochr arall er mwyn i gerbydau cael gweld yr arwydd yn fwy clir.

## **UNRHYW FATER ARALL**

### **CEISIADAU ARIANNOL**

Derbyniwyd cais ariannol gan Eistedfod Gadeiriol Dyffryn Conwy. Pasiwyd a phenderfynwyd aelodau y cyngor drwy godi eu dwylo i anfon £30 fel gwobr i noddi eitem yn yr Eisteddfod.

### **UN LLAIS CYMRU**

Derbyniwyd cais am dâl aelodaeth o £95 'Un Llais Cymru' a fydd angen ei dalu am y flwyddyn 2022/2023.

### **LLINELLAU MELYN**

Cerbyd yn parcio ar y llinellau melyn wrth y cilfan bws, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged. Pasiwyd aelodau y cyngor i fonitro y sefyllfa.

### **PONT DOLGARROG**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyng. Austin Roberts fod y gwaith o atgywerio y bont yn Dolgarrog yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos ac y bydd y llwybr cerdded yn cael ei osod yn ol ar y bont.

### **BYRDDAU PICNIC**

Pasiwyd i edrych ar gyflwr y bwrdd picnic yn y maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan ac archebu un newydd yn ei le os oes angen.

Awgrymwyd hefyd rhoi cais i mewn i'r Sir am gael byrddau picnic yn cae chwarae Cae Cetyn, Llanddoged a buasai y Cyngor Cymuned yn fodlon talu y gost am y byrddau picnic.

### **CYLLID**

Cyfrif Cyfredol - £3,278.82      Cyfrif Cadw - £2,976.19

Arwyddwyd (Cadeirydd) ..... Dyddiad .....